**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-537
Ein cyf/Our ref CS/01209/14

William Powell AC
Aelod Cynulliad ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin
Pwyllgor Deisebau'r Cadeirydd
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Cardydd
CF99 1NA
committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

23 Medi 2014

Annwyl Bill

Diolch am eich llythyr ynghylch ystyriaethau pellach sy'n cael eu gwneud gan y deisebwr i ymateb i ateb fy rhagflaenydd ar y pwnc plannu coed i leihau llifogydd.

Mae rheoli coed a pherthi yn parhau yn rhan o ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â rheoli risg. Mae gwella y ffordd yr ydym yn rheoli tir a dŵr o fewn ein dalgylchoedd yn rhan bwysig o'n dull naturiol o reoli llifogydd. Fodd bynnag, mae angen inni arfarnu pob cynllun ar ei ragoriaethau ei hun ac nid oes unrhyw un ateb y gellir ei ddefnyddio ym mhob achos. Mae'n bosib nad yw rhai atebion, fel plannu coed, yr ateb mwyaf effeithiol bob tro, nac yn rhoi'r manteision mwyaf o gymharu â dulliau eraill o reoli risg.

Elfen hollbwysig o gyflawni manteision amgylcheddol posibl plannu coed a pherthi yw'r dewis strategol a doeth o leoliadau, rhwyogaethau a'r dull o'u rheoli.

Bydd cynlluniau lleihau llifogydd yn elwa fel arfer o amrywiol ddulliau o leihau risg; bydd rheoli tir yn well, gan gynnwys plannu coed, yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r broses o reoli risg, er enghraifft wrth arafu y llif dros y tir, a lleihau y briglifoedd yn ein cyrsiau dŵr.

Er nad yw'n bosib i Lywodraeth Cymru gytuno i blannu nifer benodol o goed mewn cynlluniau risg llifogydd, bydd hyn yn parhau i gael ei awgrymu ble y mae'n addas i'r lleoliad ac yn ateb cost effeithiol i leihau'r risg o lifogydd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi y broses blanu coed o dan gynllun Glastir o dan raglen nesaf y Cynllun Datblygu Gwledig ar yr amod bod yr UE yn ei gymeradwyo.

Bydd map diwygiedig wedi'i ddiweddaru o gyfleodd ar gyfer creu coetiroedd yn disodli'r map "coch, oren a gwyrdd" a oedd yn cael ei ddefnyddio o dan y rhaglen flaenorol.

Gobeithio bod hyn o gymorth.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol